

Crynodeb Gwirio Ansawdd Delfryn House a Lodge

Dyddiad y gweithgarwch: **10 Awst 2020**

Dyddiad cyhoeddi: 07 Medi 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@gov.wales

Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Delfryn House a Lodge yn Yr Wyddgrug fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull gweithredu haenog o ran sicrwydd ac mae'n un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 10 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu polisiâu allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Ni chofnodwyd unrhyw achosion o COVID-19 nac unrhyw glefydau heintus eraill o fewn y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o bolisiau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau bod gan y staff ganllawiau cyfredol mewn perthynas â threfniadau COVID-19. Cafodd hyfforddiant a oedd yn ymwneud yn benodol â COVID-19 ei ddarparu i bob aelod o'r staff hefyd.

Gwelsom ddogfennau a ddangosodd fod archwiliadau rheoli heintiau a gafodd eu cwblhau ym mis Mehefin 2020 wedi cadarnhau sgôr 'rhagorol' ar bob ward, gyda'r Lodge yn cyflawni cydymffurfiaeth o 100%.

Cadarnhaodd rheolwr yr ysbyty fod archwiliadau wythnosol wedi cael eu cwblhau a oedd yn cynnwys argaeledd cyflenwadau PPE. Gellir cael gafael ar unrhyw eitemau sydd eu hangen o fewn 24 awr. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff ac ymwelwyr yn defnyddio PPE. Mae eitemau PPE ar gael i'r cleifion eu defnyddio.

Dywedwyd wrthym fod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach, a hynny bob dwy awr. Mae amseroedd bwyd y cleifion wedi cael eu gwasgaru ac mae rhai cadeiriau a byrddau wedi cael eu symud hefyd er mwyn helpu i gadw pellter cymdeithasol.

Mae posteri sy'n ymwneud â golchi dwylo a hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob ward.

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd cleifion yn cynnwys diweddariad COVID-19 gan y staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau cyfredol a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon neu ofyn cwestiynau am COVID-19. Mae'r staff wedi cael e-byst rheolaidd sydd wedi cynnwys dolenni i fideos yn dangos sut i wisgo PPE a'i dynnu. Mae hyn yn ychwanegol at hyfforddiant, polisiau ysgrifenedig, gweithdrefnau a phosteri yn yr ysbyty. Mae'r cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod pawb yn cael cyngor a chanllawiau cyfredol ar COVID-19.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19 sy'n cynnwys glanhau holl ardaloedd y cleifion a'r staff bob dwy awr. Darperir prydau bwyd ar ddwy adeg wahanol er mwyn helpu i reoli trefniadau cadw pellter cymdeithasol. Gall yr ysbyty ddefnyddio rhai ystafelloedd cyfarfod mawr sy'n sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gan gadw pellter diogel. Mae Wi-Fi ar gael a phrynwyd dyfeisiau ychwanegol er mwyn galluogi'r cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Defnyddiwyd galwadau ffôn a galwadau fideo er mwyn sicrhau bod y cleifion yn gallu parhau i gael gafael ar wasanaethau proffesiynol, gan gynnwys gwasanaethau eirioli mewn perthynas â'u gofal a'u triniaeth.

Er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cadw mewn cysylltiad â'u gwasanaethau/timau allanol, dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd rhithwir yn cael eu cynnal â chydlynwyr gofal a chyllidwyr. Cawsant eu gwahodd i adolygiadau ward a galwadau wythnosol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth wedi darparu diweddariadau perthnasol ynghylch profiadau'r cleifion a'r broses o ddarparu'r gwasanaeth drwy gydol y cyfyngiadau symud.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, cyfyngwyd ar drefniadau rhyddhau cleifion dros dro ar y dechrau. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi gallu trefnu bod y cleifion yn defnyddio tir yr ysbyty er mwyn gwneud ymarfer corff a chael amser i ffwrdd o'r ward. Cafodd hyn ei hwyluso yn unol â'r risgiau i'r cleifion. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cael gafael ar ddodrefn gardd ychwanegol i'r cleifion ei ddefnyddio wrth dreulio amser i ffwrdd o'r ward.

Ar hyn o bryd, mae'r ysbyty yn cefnogi ymweliadau gan deuluoedd, a hynny ar dir yr ysbyty, ac mae wedi llunio protocol. Anfonwyd llythyrau i deuluoedd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt mewn perthynas ag ymweliadau a'r protocol i'w ddilyn i drefnu'r ymweliadau hyn. Cynigir PPE i deuluoedd yn ystod eu hymweliad a defnyddiwyd taflen cofnodi ymwelwyr. Am fod y cyfyngiadau wedi cael eu hadolygu, mae'r staff yn Delfryn wedi gallu adolygu trefniadau rhyddhau cleifion dros dro a gallant bellach ddarparu mynediad i'r gymuned/treulio amser gartref (lle y bo'n briodol).

Yn dilyn trafodaethau â rheolwr yr ysbyty ac ar ôl edrych ar y ddogfennaeth a gyflwynwyd, roedd yn glir y byddai unrhyw glaf â chlefyd heintus yn cael ei reoli'n briodol yn unol â'r polisiau a'r gweithdrefnau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r

risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom ddogfennau a oedd yn adlewyrchu bod polisi rheoli heintiau yn ogystal â chyfres o bolisiau a gweithdrefnau ategol eraill sy'n sicrhau bod iechyd y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn cael ei ddiogelu drwy gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Yn ogystal â'r rhain, mae polisi COVID-19 yn ogystal â gweithdrefnau ategol wedi cael eu cyflwyno.

Dywedwyd wrthym fod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach a bod gorsafoedd PPE ar gael wrth fynedfa pob ward.

Dywedwyd wrthym fod systemau a gweithdrefnau ar waith i nodi unrhyw staff neu gleifion a allai fod mewn perygl o ddatblygu COVID-19. Dechreuodd yr ysbyty gymryd tymheredd y cleifion (bob dydd) yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau gofal COVID-19. Yn ogystal â hyn, caiff tymereddau'r staff eu cymryd a'u dogfennu bob dydd. Mae asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar y sgôr, bydd y sefydliad yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff ynysu neu osgoi ardaloedd y cleifion.

Dywedodd rheolwr yr ysbyty wrthym fod hyfforddiant sy'n berthnasol i COVID-19 wedi cael ei roi ar waith fel rhan o'r system hyfforddi ar-lein i bob aelod o'r staff ei gwblhau. Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd yn dangos cyfradd gydymffurfio o 85% yn Delfryn House a 92% yn Delfryn Lodge. Cafodd swyddog cyswllt COVID-19 arweiniol ei nodi ar gyfer y gwasanaeth.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn adlewyrchu bod archwiliadau ar waith i asesu a rheoli'r risg o haint. Dywedwyd wrth AGIC na fu unrhyw achosion o COVID-19 ond disgrifiodd rheolwr yr ysbyty y prosesau sydd ar waith i ddarparu gwasanaeth nyrsio ataliol i unrhyw glaf â chlefyd heintus.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei

ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o bolisi rheoli heintiau yn ogystal â chyfres o bolisiau a gweithdrefnau ategol eraill sy'n sicrhau bod iechyd y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn cael ei ddiogelu drwy gydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Yn ogystal â'r rhain, gwelsom dystiolaeth o bolisi COVID-19 yn ogystal â gweithdrefnau ategol a gyflwynwyd.

Dywedwyd wrthym fod holl ardaloedd y cleifion a'r staff yn cael eu glanhau'n amlach a bod gorsafoedd PPE ar gael wrth fynedfa pob ward.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod systemau a gweithdrefnau ar waith i nodi unrhyw staff neu gleifion a allai fod mewn perygl o ddatblygu COVID-19. Dechreuodd yr ysbyty gymryd tymheredd y cleifion (bob dydd) yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau gofal COVID-19. Yn ogystal â hyn, caiff tymereddau'r staff eu cymryd a'u dogfennu bob dydd. Mae asesiadau risg wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Gan ddibynnu ar y sgôr, bydd y sefydliad yn penderfynu a oes angen i'r aelod hwnnw o staff ynysu neu osgoi ardaloedd y cleifion.

Cafodd hyfforddiant sy'n berthnasol i COVID-19 ei roi ar waith fel rhan o'r system hyfforddi ar-lein i bob aelod o'r staff ei gwblhau. Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd yn dangos cyfradd gydymffurfio o 85% yn Delfryn House a 92% yn Delfryn Lodge. Cafodd swyddog cyswllt COVID-19 arweiniol ei nodi ar gyfer y gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau sy'n asesu ac yn rheoli'r risg o haint. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw achosion o COVID-19, ond disgrifiodd rheolwr yr ysbyty y prosesau sydd ar waith i ddarparu gwasanaeth nyrsio ataliol i unrhyw glaf â chlefyd heintus.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriadau, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r

canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol

- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Cynllun gwella

Lleoliad: Delfryn House a Delfryn Lodge

Dyddiad y gweithgarwch: 10 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys welliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Ni nodwyd unrhyw welliannau				
2					
3					
4					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw:

Dyddiad: